



Newyddlen Rhifyn 3 Mehefin 2015

Newyddlen yr Haf

Gan ein bod yn dod at ddiwedd tymor, dyma fydd ein newyddlen olaf tan fis Medi.

Digwyddiadau i Ddod

Eisteddfod Llangollen


Byddwn yn Eisteddfod Llangollen rhwng dydd Mawrth 7 Gorffennaf a dydd Sadwrn 11 Gorffennaf eleni. Byddwn yn gweithio ar stondin wybodaeth gyda Chanolfan Europe Direct a leolir yn ECTARC yn Llangollen.

Bydd gennym lawer o wybodaeth gyffredinol am yr UE a sut mae'n gweithio yn ogystal â gwybodaeth am yr Aelod-wladwriaethau a'ch hawliau.

Bydd gennym lawer o lyfrynau llawn hwyl i blant gyda llyfrau lliwio a sticeri gan ddarparu gwybodaeth am wledydd megis baneri ac arian cyfred.

Os ydych chi'n ymweld â'r Eisteddfod dewch draw i'r stondin i weld y wybodaeth sydd gennym.

Hoffwn bwysleisio ein bod yn sefydliad gwleidyddol niwtral a'n bod yno yn syml i roi gwybodaeth nid propaganda. Ni fyddwn chwaith yn darparu unrhyw wybodaeth am y refferendwm sydd i ddod.



Gweithdai Diwrnod Rhyngwladol yr Ysgol

Drwy gydol mis Mehefin a Gorffennaf, rydym wedi bod yn cynnal, a byddwn yn parhau i gynnal Diwrnod Rhyngwladol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Rydym yn mynd i'r ysgol am ddiwrnod llawn ac yn cynnig gweithdai mewn dosbarthiadau.

Mewn rhai achosion, mewn ysgolion cynradd, mae pob dosbarth wedi dewis gwlad wahanol, felly rydym yn mynd i mewn ac yn siarad â'r dosbarth am y wlad honno, ei diwylliant a'i hiaith ac rydym yn cymryd gweithgareddau hwyliog y gall y disgyblion eu gwneud.

Mewn achosion eraill, yn bennaf mewn ysgolion uwchradd, byddwn yn mynd i mewn i ysgolion ac yn cynnal gweithdai sy'n canolbwyntio ar ddewisiadau iaith ar lefel TGAU, mae hyn fel rheol yn golygu Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg, neu gyfuniad ohonynt. Byddwn yn siarad am y wlad yn gyffredinol, yn ogystal â'r diwylliant a byddwn yn ei chysylltu â'r iaith drwyddi draw. Byddwn yn dod â gweithgareddau hwyliog er mwyn i'r dosbarth gymryd rhan.

Diwrnod Chwarae

Date: Wednesday 5th August 2015

Location: Queens Square, Wrexham

Time: 12pm-4pm



Playday is the UK wide annual celebration of Children's Right to Play that takes place every August on the first Wednesday of the month. Wrexham celebrates national Playday each year by holding a large scale, free and open access play event in the town centre on Queen's Square and Llwyn Isaf.

Over the years our Playday events have built up quite a reputation with 1000s of people visiting each year. The success of the event relies heavily on lots of different groups each contributing some form of opportunity for children's play, which collectively creates one big and very playful environment. The events offer something for everyone who enjoys playing including the chance to get wet and messy! For further information or to get involved please contact the WCBC Play Development Team.

WCBC Play Development Team

Coedpoeth Youth Centre

Tabor Hill

Coedpoeth

LL11 3RU

01978 298361

play@wrexham.gov.uk

Mwynhewch Wyliau'r Haf!

2015 - Blwyddyn Datblygiad Ewropeaidd



Fe wnaethom gyflwyno Blwyddyn Datblygiad Ewropeaidd yn ein Newyddlen flaenorol, gan sôn y bydd gan bob mis brif thema. Mae'r themâu ar gyfer y mis hwn a'r nesaf i'w gweld isod:

Mehefin - Twf Gwyrdd Cynaliadwy, Swyddi a Busnesau Addas

Mae gan yr economi werdd berthnasedd arbennig ar gyfer gwledydd datblygol, gan bod nifer yn agored i ddigwyddiadau allanol megis newid hinsawdd, trychinebau naturiol neu argyfyngau bwyd a thanwydd. Ar yr un pryd, dylai twf gwyrdd cynaliadwy liniaru tlodi, gwarchod yr amgylchedd naturiol a sicrhau bod gwaith addas gyda hawliau a safonau llafur, diogelwch cymdeithasol a deialog cymdeithasol i gyd yn cael eu cynnal.

Heddiw, mae dros 200 miliwn o bobl yn ddi-waith ledled y byd. Dim ond tua chwarter y boblogaeth oedran gweithio mewn gwledydd datblygol sydd â gwaith cynhyrchiol ac addas; mae bron i 900 miliwn o weithwyr yn byw mewn cartrefi lle mae'r incwm o dan y llinell dlodi. Mae busnesau yn grewir swyddi ac yn arwain arloesedd a newid, maent yn allweddol i sicrhau gwaith boddhaol a chreu datblygiad cyfrifol a chynaliadwy. Yn y pendraw, mae datblygiad yn ymwneud â buddsoddi a gwneud i weithgarwch economaidd weithio i bawb, tra'n diogelu ein planed.

Gorffennaf - Plant ac Ieuentid

Pan lofnododd arweinwyr y byd y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn 25 mlynedd yn ôl, fe wnaethant addo gwarantu bod gan bob plentyn hawl i fyw, i gael eu haddysgu ac i fod yn iach, i gael eu trin yn deg ac y byddai eu llais yn cael ei glywed. Ond a ydi'r byd wedi cadw ei addewidion? Fel y dywedodd Nelson Mandela, *"There can be no keener revelation of a society's soul than the way in which it treats its children." Can today's children look forward to a brighter future? And what about the children of tomorrow?"*

Awst – Cymorth Dyngarol

Gall trychinebau naturiol, rhyfeloedd, a gwrthdaro gael effeithiau dinistriol ar sifiliaid, gan eu hamddifadu o hanfodion cynhaliaeth sylfaenol megis bwyd neu drydan, weithiau dros nos. Mae cymorth dyngarol yn sicrhau goroesiad y poblogaethau yr effeithir arnynt wedi argyfwng, drwy ymateb i anghenion sylfaenol megis bwyd, lloches, dŵr glân neu ddiogelwch corfforol. Mae cymorth dyngarol Ewropeaidd yn ddiamod. Mae yno i unrhyw un sydd ei angen, waeth beth fo'u hil, ethnigrwydd, crefydd, rhyw, oedran neu gredoau gwleidyddol. Mae'n ymwneud ag urddas dynol, nid gwleidyddiaeth.

Cymorth Datblygu'r UE

15 peth efallai na fyddwch yn ei wybod am gydweithrediad datblygiad yr UE yn 2015

1. Mae cymorth yr UE yn canolbwyntio ar y gwledydd sydd ei angen fwyaf.
2. Mae'r UE yn helpu i wella bywydau miliynau o bobl.
3. Mae cymorth yr UE yn dryloyw ac mae'n hawdd canfod i ble mae'r arian yn mynd.
4. Er mwyn atal twyll a llygredd, caiff cymorth yr UE ei archwilio a'i reoli'n rheolaidd.
5. Yr UE a'i Aelod-wladwriaethau gyda'i gilydd yw'r rhoddwyr mwyaf hael o gymorth datblygu swyddogol yn y byd.
6. Mae gan wledydd datblygol llais cryf yn y ffordd y caiff cymorth yr UE ei wario, beth fydd yn cael ei wneud a ble.
7. Mae'r UE yn dibynnu ar sefydliadau gyda'r profiad cywir i gyflawni ei brosiectau datblygu ar lawr gwlad.
8. Mae'r UE yn cynnwys sefydliadau cymdeithas sifil pan mae'n cynllunio ei gydweithrediad gyda gwledydd partner.
9. Mae tua 25% o gymorth yr UE yn cael ei roi yn uniongyrchol i lywodraethau fel y gallant ymgymryd â'u gwaith, a dilyn blaenoriaethau y maent yn diffinio eu hunain, mewn trafodaethau agos gyda'r UE.
10. Mae gan yr UE 139 o ddirprwyaethau a swyddfeydd ledled y byd, mwy nag unrhyw aelod-wladwriaeth yr UE. Ar yr un pryd, mae ei gymorth allanol yn gyfystyr i lai na degfed ran ei chyllideb.
11. Mewn llawer o wledydd, mae'r UE a'i Aelod-wladwriaethau yn cyfuno eu hymdrechion datblygu i sicrhau ein bod yn cydweithio mwy ac nad ydym yn gwneud yr un peth ddwywaith.
12. Mae'r UE yn gweithio'n galed i sicrhau bod ei waith mewn meysydd megis masnach a chyllid, amaethyddiaeth, diogelwch, newid hinsawdd, neu ymfudo yn helpu i oresgyn tlodi mewn gwledydd sy'n datblygu.
13. Mae cymorth dyngarol yr UE a chydweithrediad datblygu yn wahanol, ond yn gweithio law yn llaw.
14. Mae'r byd wedi llwyddo i ostwng cyfran y bobl sy'n hynod o wael gan fwy na hanner ers 1990.
15. Mae Ewropeaidd yn credu bod gennym gyfrifoldeb i helpu pobl mewn gwledydd tlawd, ac mae llawer yn barod i chwarae eu rhan yn hyn.

I gael rhagor o fanylion, ewch i:

<https://europa.eu/eyd2015/en/content/eu-development-aid>



Cy

Dim ots a ydych yn dysgu am Ewrop mewn gwersi Daearyddiaeth, Hanes, Dinasyddiaeth neu Wleidyddiaeth, bydd ymweliad i'r swyddfa gwybodaeth Senedd Ewrop yn y DU yn helpu i gefnogi eich gwaith a gwella dysg eich myfyrwyr. Byddwn yn gweithio gyda chi i sicrhau bod eich ymweliad yn wirioneddol werthfawr.

Bydd eich ASEau yn cael gwybod am eich ymweliad a'u hannog i ymgysylltu â'ch myfyrwyr. Gadewch i ni wybod os oes yna fater penodol yr hoffech siarad â nhw amdano.

Caiff sesiynau eu hwyluso gan staff hyfforddedig o Involver, menter gymdeithasol sy'n helpu pobl ifanc i gael llais yn y lleoedd y maent yn mynd iddynt a'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: http://www.europarl.org.uk/en/education/school_visits.html/Q&

Ymweld â'r Senedd ym Mrwsel neu Strasbourg

Mae'r ymweliadau yma i blant sy'n 14 a hŷn.

Tra'n ymweld â **Brwsel**, bydd grwpiau yn mynd i'r Parlamentarium er mwyn dysgu am eu ASEau a'r hyn maent yn ei wneud yn ogystal â hanes yr UE a sut mae'n gweithio.

Bydd grwpiau yn mynd ar daith o amgylch y Siambr ble y cynhelir cyfarfodydd pwyllgor, ac ar gyfer grwpiau ysgol mae yna gemau chwarae rôl er mwyn i fyfyrwyr gogio bod yn ASEau.



Strasbourg yw sedd swyddogol Senedd Ewrop. Bob mis, mae Aelodau'n ymgynnull yma am bedwar diwrnod i bleidleisio ac i ddadlau mewn cyfres o gyfarfodydd sy'n cael eu galw'n sesiynau llawn.

Pa unai ydynt yn gwrthod, diwygio neu'n mabwysiadu cynigion, mae'r wythnos hon yn uchafbwynt yn y broses o ffurfio cyfraith yn yr UE. Rydym yn gwahodd ymwelwyr i eistedd a gwranddo ar y sesiynau hyn, ac i ddysgu mwy am y corff cynrychiadol mewn sgwrs addysgiadol sydd yn para am tua un awr. Mae teithiau tywys o amgylch y Siambr ar gael hefyd.

Euroscola: Mae Senedd Ewrop yn gwahodd ysgolion, athrawon a myfyrwyr i gymryd rhan yn rhaglen Euroscola – cyfle i ddisgyblion ysgol uwchradd dreulio diwrnod yn Strasbourg fel ASEau!

Daw Euroscola â myfyrwyr 16-18 mlwydd oed ynghyd o bob un o 27 Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd. O feinciau siambr y Senedd Ewropeaidd, caiff myfyrwyr y cyfle unigryw i weld penderfyniadau'n cael eu gwneud yn yr UE ar ffurf Senedd leuenctid Ewrop mewn sawl iaith. Mae Euroscola yn galluogi myfyrwyr i ddod ynghyd, i ddadlau, i gymryd ochr, i drafod, i ddiwygio, i bleidleisio, ac yn y diwedd mabwysiadu datrysiadau ar broblemau go iawn Ewropeaidd.

Beth yw Europe Direct?

Mae Europe Direct Wrexham yn wasanaeth gwybodaeth am Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd. Rydym yn darparu llawer iawn o lenyddiaeth AM DDIM ar gyfer pob oedran ar bob math o bynciau o'r amgylchedd, Senedd Ewrop, cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc yn Ewrop, teithio yn Ewrop ac ieithoedd.

Rydym hefyd yn darparu pecynnau ar gyfer athrawon i'w cynorthwyo wrth gyflwyno pynciau ar Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd fel rhan o'r cymhwyster Bagloriaeth Cymru ac Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF).

Rydym yn cynnig deunydd am ddim i greu arddangosfeydd wal lliwgar am Ewrop, fel mapiau, baneri a phosteri.

Ar wahân i'r cyhoeddiadau, rydym hefyd yn cyflwyno gweithdai AM DDIM mewn ysgolion ar bynciau megis hanes yr UE, yr hyn y mae'n ei wneud, sut y caiff cyfreithiau eu ffurfio, pwysigrwydd dysgu ieithoedd tramor modern, busnes a masnachu a'r amgylchedd.

Mae gweithdai yn cynnwys gwahanol weithgareddau y gallwch ddewis a dethol ohonynt, fel cyflwyniadau, cwisiau, gemau map, dylunio eich ASE a dylunio bag Ewropeaidd i ffurfio gwers.

Yn ogystal â gweithdai, gallwn helpu i drefnu wythnosau Ewropeaidd, gwasanaethau Ewropeaidd, diwrnodau hwyl ac ymweliadau ASE fel rhan o ddyddiau cwricwlwm.

Bwriad y newyddlen hon yw rhoi gwybod i chi am y gwasanaethau y gall Europe Direct eu cynnig i CHI i'ch helpu i ddysgu rhai pynciau.

Enghreifftiau o Weithdai:

Tylwyth Teg Ewrop (Oedran 3-11, sesiwn 1 awr)

Pa mor dda ydych chi'n adnabod Ewrop? (Oedran 11+, sesiwn 1 awr)

'Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd - beth ydyw?' (Oedran 11-18, sesiwn 1 awr)

Dylunio Bag Cotwm Ewropeaidd (Oedran 7-14, sesiwn 1 awr)

Cardiau Post Ewropeaidd (Oedran 8-11, sesiwn 1 awr)

Dylunio eich Gwleidydd eich Hun (Oedran 11-16, sesiwn 30 munud)

Dylunio eich Dinesydd Ewropeaidd eich Hun (Oedran 11-16, sesiwn 30 munud)

Dylunio Baner UE (Oedran 8-11, sesiwn 30 munud)

Erasmus + Partneriaethau Strategol ar gyfer Ysgolion (ar gyfer athrawon)

E-gefeillio (ar gyfer athrawon)

Senedd Ewrop yn Llundain Ymweliadau AM DDIM

Os ydych chi awydd gwahodd Europe Direct Wrexham i ddod i roi cyflwyniadau yn eich ysgol, neu os fyddwch chi angen rhagor o wybodaeth, peidiwch ag oedi cysylltu â ni ar y manylion isod:

**Europe Direct
Wrexham**

Llyfrgell Wrexham,

Ffordd Rhosddu,

Wrexham,

LL11 1AU

europedirect@wrexham.gov.uk

01978 292631